# Comisiynu a datgomisiynu rhwydweithiau dŵr

## Trosolwg

Mae'r Safon hon yn ymwneud â chomisiynu neu ddatgomisiynu rhwydweithiau yn y diwydiant dŵr.
Mae'n cynnwys cael yr adnoddau angenrheidiol, sicrhau bod yr amodau'n addas, dilyn gweithdrefnau comisiynu neu ddatgomisiynu, datrys problemau, sicrhau bod rhwydweithiau yn cydymffurfio â manylebau, rheoliadau a chanllawiau perthnasol a chofnodi canlyniadau.
Bydd y Safon hon yn berthnasol i waith adeiladu rhwydweithiau dŵr ac mae wedi'i bwriadu ar gyfer goruchwylwyr adeiladu.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. gweithio yn unol â rheoliadau a chanllawiau iechyd, diogelwch, yr amgylchedd, ansawdd dŵr a rheoliadau a chanllawiau perthnasol eraill bob amser
2. defnyddio gweithdrefnau comisiynu neu ddatgomisiynu yn unol â datganiadau dull
3. cadarnhau bod yr amgylchedd yn addas ar gyfer comisiynu neu ddatgomisiynu a bod yr hysbysiadau angenrheidiol wedi cael eu cyflawni
4. penderfynu ar, a chael, yr adnoddau sydd eu hangen er mwyn gwneud y gwaith comisiynu neu ddatgomisiynu
5. sicrhau bod gwaith comisiynu neu ddatgomisiynu yn cael ei roi ar waith yn unol â gweithdrefnau a phrosesau cymeradwy
6. nodi unrhyw broblemau gyda gweithgareddau comisiynu neu ddatgomisiynu cyn gynted ag y byddant yn codi
7. datrys unrhyw broblemau gyda gweithgarwch comisiynu neu ddatgomisiynu o fewn eich maes cyfrifoldeb
8. cyfeirio unrhyw broblemau nad oes modd i chi eu datrys at y bobl briodol ar amseroedd priodol
9. gwneud yn siŵr bod allbynnau rhwydwaith yn unol â chyfarwyddiadau'r swydd pan fydd y gweithgaredd comisiynu a datgomisiynu wedi'i gwblhau
10. cadarnhau bod y weithdrefn gomisiynu a ddilynir yn cydymffurfio â gweithdrefnau ac arferion y sefydliad a'r holl ofynion rheoliadol perthnasol
11. cofnodi canlyniadau gweithgareddau comisiynu neu ddatgomisiynu yn unol â gofynion sefydliadol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. gweithdrefnau ar gyfer comisiynu neu ddatgomisiynu
2. ffynonellau gwybodaeth gan gynnwys datganiadau dull, manylebau rhwydwaith, manylebau dylunio ac adeiladu cwmnïau dŵr, adroddiadau statudol ac anstatudol, dogfennau'r cwmni, cyfarwyddiadau'r swydd, dogfennau cleientiaid mewnol ac allanol
3. gweithgareddau comisiynu neu ddatgomisiynu sy'n addas ar gyfer gwahanol fathau o rwydwaith
4. ffactorau i'w hystyried wrth gynllunio gwaith comisiynu neu ddatgomisiynu
5. technegau comisiynu a dad-gomisiynu a sut maent yn wahanol wrth weithio ar gysylltiadau dan wasgedd
6. amodau a allai effeithio ar yr amgylchedd gan gynnwys amrywiadau mewn tywydd, ardaloedd gwarchodedig, llygredd, cynhyrchion, gwaith mewn ardaloedd cyfagos, rheoli gwastraff, gweithredoedd pobl
7. gofynion o ran adnoddau gan gynnwys peiriannau, offer, deunyddiau, llafur, defnyddiau traul
8. deunyddiau ac offer cymeradwy a sut i gael gwybodaeth ynglŷn ag argaeledd
9. y mathau o broblemau a allai godi a'r gweithdrefnau cymeradwy ar gyfer delio â nhw a rhoi gwybod amdanynt
10. rheoliadau dŵr a gweithdrefnau hylendid sy'n ymwneud â sicrhau cyfanrwydd ac effeithiolrwydd cyflenwadau dŵr, gan gynnwys pwysigrwydd hylendid personol
11. deddfwriaeth iechyd, diogelwch, yr amgylchedd a deddfwriaethau perthnasol eraill, gweithdrefnau sefydliadol a chodau ymarfer gan gynnwys argyfyngau, cynllunio wrth gefn ac asesiadau risg
12. sut i gael gwybodaeth am reoliadau a chanllawiau
13. yr effaith y gallai gweithgarwch comisiynu a datgomisiynu ei chael ar gwsmeriaid presennol a rhwydweithiau eraill
14. pwy sydd angen cael gwybod am gomisiynu a datgomisiynu a'r prosesau ar gyfer gwneud hynny
15. allbynnau a ddisgwylir o'r rhwydwaith
16. sut i asesu canlyniadau gwaith comisiynu neu ddatgomisiynu
17. systemau ar gyfer cofnodi gwybodaeth a pham ei bod yn bwysig eu defnyddio

Comisiynu a datgomisiynu rhwydweithiau dŵr

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Energy & Utility Skills |
| **Fersiwn rhif** | 2 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 01 Mai 2023 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 01 Mai 2028 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Energy & Utility Skills |
| **RCU gwreiddiol** | EUSWNC9 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Adeiladu Rhwydwaith Dŵr |
| **Cyfres/Set** | Gweithrediadau Adeiladu Rhwydweithiau Dŵr |
| **Geiriau Allweddol** | comisiynu, datgomisiynu, rhwydwaith, dulliau, gweithdrefnau, dŵr, adeiladu, hunan-osod, cyfleustodau |